

Ar Shabbat (machlud haul ddydd Gwener hyd at fachlud haul ddydd Sadwrn), yn y synagog, pan fyddwn ni'r Iddewon yn ymgynnull i gwrdd a gweddio, rydym yn darllen cyfran wythnosol o'r *Torah* (pum llyfr cyntaf Moses). Gelwir y gyfran ('parashah' mewn Hebraeg), a fydd yn cael ei darllen y Shabbat hwn, yn '*Ki Teitzei*' ar ôl y geiriau agoriadol, sy'n golygu 'pan ewch chi' a chyfeirio at *Devarim* ('Geiriau') neu Dewteronomium 21: 10-25: 19.

*Devarim* neu Dewteronomiwm yw pumed llyfr y Beibl Hebraeg. Mae ar ffurf araith ffarwel gan yr arweinydd Moses, a ryddhaodd y caethweision o'r Aifft, i'w bobl, sy'n dal i grwydro yn yr anialwch, cyn iddynt fynd i Ganaan, Gwlad yr Addewid.

Mae nifer o rwymedigaethau ar yr Israeliaid a adroddir gan Moses yn Llyfr Dewteronomiwm ac mae'r gyfran benodol hon yn cynnwys llawer o reolau sy'n ymwneud â phriodas, rhyfel, anifeiliaid, claddedigaethau, dillad ac ati.

Mae rhai o'r deddfau hyn yn swnio'n gyfrin ac yn hen-ffasiwn inni heddiw, yn annymunol hyd yn oed. Er enghraifft, y llinell hon, 'Rhaid i ferch beidio â gwisgo dillad dyn, ac ni chaiff dyn wisgo dillad merch; oherwydd mae pwy bynnag sy'n gwneud y pethau hyn yn wrthun i'r ARGLWYDD eich Duw.'

Ond mae eraill yn swnio'n rhesymol a theg oherwydd mai sail llawer o'r rheolau yw'r ymdeimlad bythol o degwch a chyfiawnder.

Wrth gwrs, mae Iddewon uniongred yn credu mai gair bythol Duw yw'r Beibl Hebraeg, a roddwyd i Moses a ysgrifennodd y cyfan mewn du a gwyn. Ac eto, mae'r ysgolheigion yn gytûn yn cyffredinol bod y testun yn dyddio o gyfnod llawer hwyrach yn hanes Israel hynafol.

Ni waeth pa draddodiad ffydd rydych chi'n perthyn iddo, neu os nad oes gennych ffydd, ac ph'un a ydych chi'n credu bod ysbrydoliaeth ddwyfol iddo ai peidio, neu ei fod yn destun hanesyddol sy'n adlewyrchu amgylchiadau, amser a lleoliad oes ei gynhyrchu, neu'n llenyddiaeth oesol, mae'r geiriau'n atseinio hyd heddiw.

Cymerwch yr enghraifft hon

לֹא־תַעֲשֶׂק שֹׁכֵר עֲנִי וְאֶבְיֹן מֵאֲחֵיךָ אֹי מִגֵּרְךָ אֲשֶׁר בְּאַרְצְךָ בְּשַׁעֲרֶיךָ:

Peidiwch â cham-drin llafurwr anghenus ac amddifad, p'un a yw'n gyd-wladwr neu'n ddiethryn yn yr un o gymunedau eich gwlad.

כִּי־וּמֹתֶיךָ שֹׁכְרֵי וְלֹא־תִבְוֶא עָלֶיךָ הַשֹּׁמֵשׁ כִּי עָנִי הוּא וְאֶלְיֵי הוּא נִשְׂא אֶת־נַפְשׁוֹ וְלֹא־יִקְרָא עָלֶיךָ אֶל־הַיְהוָה (וְהָיָה כִּי־תִשָּׂא: ס)

Rhaid i chi dalu ei gyflog iddo ar yr un diwrnod, cyn i'r haul fachlud, oherwydd mae'n anghenus ac yn dibynnu arno; fel arall bydd yn llefain ar yr ARGLWYDD yn eich erbyn a bydd euogrwydd arnoch.

Yn y llinellau hyn, mae pryder am les y gweithwyr, yn enwedig y gweithwyr hynny sydd ar gyflog isel, tebyg i weithwyr 'economi'r gig' heddiw. Mae'r rheol yn glir: ni ddylid eu 'cam-drin' na'u trin yn wael. Rhaid parchu eu hamodau gwaith ac ni ddylid gofyn iddynt wneud dim byd peryglus. Mae hyn yn berthnasol i lafurwyr brodorol a mewnfudwyr fel ei gilydd yn ddiwahân.

Yn yr adnod nesaf, nodwch y cyfarwyddyd i dalu'ch gweithwyr yn brydlon ac ar amser oherwydd bod y llafurwr yn anghenus ac yn dibynnu ar y taliad hwnnw i'w bwydo eu hunain a'u teuluoedd.

Efallai y byddai'n dda cofio'r geiriau hynny yng nghyd-destun tanbaid heddiw, yn enwedig y dadleuon ynglŷn â mewnfudo a Brexit, yn enwedig wrth i swyddi brinhau a chyflogau'n gostwng. Mae geiriau *Ki Teitzei, Devarim*/ Dewteronomiwm yn atseinio'n uchel heddiw.